nolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investme for Health and Well-being
GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddu Cymru Public Health Wales

# CYLCHLYTHYR IECHYD RHYNGWLADOL

RHIFYN 5: IONAWR 2025

## Ymweliad Gweinyddiaeth Iechyd yr Iseldiroedd â Chymru




**Ar 16 – 18 Hydref, ymunodd cynrychiolwyr o Weinyddiaeth Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yr Iseldiroedd (VWS) a Sefydliad Cenedlaethol yr Iseldiroedd dros Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd (RIVM) ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, arweinwyr iechyd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer ymweliad i gydweithredu a dysgu.**

Dywedodd Sumina Azam, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol: "Roedd yn fraint enfawr croesawu cynrychiolwyr o RIVM a Gweinyddiaeth Iechyd yr Iseldiroedd. Gwelsom fod gennym lawer yn gyffredin, megis gwaith parhaus ar newid hinsawdd, iechyd yr amgylchedd, asesu'r effaith ar iechyd a'r dyfodol.

Cawsom gyfle i fyfyrio a rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'n gilydd ar ein heriau iechyd y cyhoedd a'n gwaith i fynd i'r afael â'r rhain.

Roedd cytundeb ar rôl ymgynghori gyhoeddus wrth lunio polisïau ac ymrwymiad ar y cyd i feithrin cyfranogiad cymunedol mewn mentrau iechyd.


### Y camau nesaf

Cytunodd y cyfranogwyr y byddai nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwil ar y cyd a gweithredu polisi mewn rhai meysydd o fudd i'r ddwy ochr a gwnaethant ymrwymo i ddyfnhau cydweithio yn y dyfodol.

# Mae Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru (WHESP) wedi'i adnewyddu

P'un a ydych yn gweithio ym maes iechyd y cyhoedd neu sectorau eraill sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru wedi'i gynllunio i roi'r ddealltwriaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnoch i ysgogi newid sy'n cael effaith.

Rydym yn eich gwahodd i archwilio'r platfform a'i rannu â chydweithwyr a alla elwa o'r adnoddau gwerthfawr hyn. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau canlyniadau iachach a thecach i bawb yng Nghymru a thu hwnt.




Ewch i wefan y platfform **yma**

## Tropical Health and Education Trust (THET) yn newid ei enw i Global Health Partnerships

O 6 Tachwedd 2024, mae gan THET enw newydd sef: Global Health Partnerships. Mae'r enw clir, modern yn adlewyrchu ffocws gwaith y sefydliad yn well - sy'n parhau heb ei newid - sef gweithio'n fyd-eang mewn partneriaethau i wella ansawdd a fforddiadwyedd gofal iechyd mewn gwledydd incwm is a chanolig.

Roedd datblygiad Cynllun Strategol y sefydliad ar gyfer 2022-2027 wedi miniogi'r ffocws ar esblygu iaith a hunaniaeth yng ngoleuni'r dadleuon parhaus ynghylch dad-drefedigaethu. Er bod gwaith y sefydliad bob amser wedi hyrwyddo partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr dan arweiniad blaenoriaethau a bennwyd yn lleol, cydnabuwyd bod yr enw yn gynyddol anghydnaws â'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar lawr gwlad. Cafodd y sefydliad ei daro'n galed hefyd gan y gostyngiadau yng nghymorth y DU yn 2021, a oedd yn golygu angen i ddenu ffynonellau cyllid newydd wrth symud ymlaen. Mae enw clir, modern sy'n 'dweud yr hyn maen nhw'n ei wneud ar y tun' yn allweddol i hyn.

**"Rydym yn gyffrous i lansio ein henw newydd, sydd, yn ein barn ni, yn rhoi'r llwyfan cryfaf posibl i ni barhau â'n gwaith gwych ledled y byd. Mae ein henw newydd yn dweud yr hyn rydym yn ei wneud ar y tun: rydyn ni'n fyd-eang, rydyn ni'n angerddol am iechyd, ac rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth."**

**Ben Simms, Prif Swyddog Gweithredol, Global Health Partnerships**

Mae'r ail-lansiad fel Global Health Partnerships hefyd yn sbardun ar gyfer ehangu o fewn y DU. Ym mis Hydref 2024, unodd y sefydliad â Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica. Bydd yr enw newydd yn cael ei addasu i gwmpasu'r datblygiad cyffrous hwn, gan ddod â Global Health Partnerships Cymru i fodolaeth.

Gallwch ymweld â'r wefan trwy glicio **yma.**

# Nyrs Arweiniol Diogelu Iechyd yn ymuno â'r ymateb i frech M (mpox) yn Kenya




**Mae Nyrs Arweiniol Diogelu Iechyd arbenigol, a gafodd ei hysbrydoli i weithio dramor diolch i'w rhieni, yn teithio i Kenya i gefnogi'r brigiad o achosion o frech M.**

Mae Amanda Daniel, Nyrs Arbenigol Arweiniol Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) ar gyfer y tîm HARP Cymunedol, wedi cael ei hadleoli i weithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a'r Rhwydwaith Rhybuddio ac Ymateb i Achosion Byd-eang (GOARN) fel ymgynghorydd i gefnogi'r brigiad o achosion o frech M yn Kenya. Bydd Amanda wedi'i lleoli yn Nairobi am ddeufis fel rhan o'i rôl wrth gefn gyda Thîm Cymorth Cyflym Iechyd Cyhoeddus y DU (UK-PHRST).

Mae UK-PHRST yn bartner rhyngwladol allweddol mewn ymateb i glefydau epidemig. Mae'n partneru â gwledydd incwm isel a chanolig (LMICs) i ymateb i frigiadau o achosion o glefydau heintus cyn iddynt ddatblygu'n argyfyngau iechyd byd-eang. Mae gan UK-PHRST arbenigedd mewn epidemioleg, microbioleg, atal a rheoli heintiau (IPC), gwyddor gymdeithasol, cyfathrebu risg, iechyd meddwl a chymorth seicogymdeithasol.

Wrth gael ei hadleoli, dywedodd Amanda: "Brigiadau o achosion yw'r normal newydd ac mae angen i ni weithio ar y cyd ac yn fyd-eang i geisio atal haint cyn iddo ledu.

"Mae dysgu mewn LMICs bob amser yn ddeugyfeiriadol. Mae'n bwysig deall gwahaniaethau diwylliannol fel y gallwn eu cymhwyso wrth ysgrifennu polisïau a chanllawiau. Gallwn hefyd dod i wybod rhagor am sut i fod yn ddyfeisgar a gwneud defnydd gwell o adnoddau cyfyngedig ac ystyried cynaliadwyedd."

## Beth yw brech M (Mpox)?

Mae brech M (a elwid gynt yn frech y mwncïod) yn haint prin a geir amlaf mewn rhannau o ganolbarth a dwyrain Affrica. Mae'r risg o'i ddal yn y DU yn isel. Mae brech M yn cael ei drosglwyddo o unigolyn i unigolyn a hefyd o gnofilod heintiedig (fel llygod mawr, llygod a gwiwerod).

Mae symptomau'n cymryd rhwng 5 a 21 diwrnod i ymddangos ac maent yn cynnwys: tymheredd uchel (twymyn), cur pen, poenau yn y cyhyrau a phoen yn y cefn.

Nid oes unrhyw driniaeth brofedig ar hyn o bryd ar gyfer brech M, ond fel arfer mae'n gwella ar ei ben ei hun.

# Ymweliad â Tokyo

**Mae Diana De, addysgwr nyrsio o Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd ac aelod o IHAG (Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol), wedi bod ar ymweliad ysgolheigaidd â Institute of Sciences, Tokyo (a elwid gynt yn Tokyo Medical and Dental University).**

Ffurfiwyd y cydweithrediad trawswladol hwn oherwydd bod y ddwy brifysgol yn cyflwyno modiwlau iechyd byd-eang sy'n hybu iechyd y cyhoedd i fyfyrwyr nyrsio. Digwyddodd ymweliad Diana ddiwedd mis Tachwedd 2024 a chafodd ei noddi gan Sefydliad Sasakawa Prydain Fawr. Cynhaliwyd gweithgarwch ar-lein rhyngwladol, cydweithredol (COIL) hefyd yng ngwanwyn 2024 mewn partneriaeth â Phrifysgol Waikato, Seland Newydd, Prifysgol Caerdydd a Institute of Sciences, Tokyo.

Ystyrir bod digwyddiadau COIL yn ddull addysgegol unigryw sy'n edrych y tu hwnt i ffyrdd didactig traddodiadol o addysgu. O ganlyniad i'r prosiect yn cael cymeradwyaeth foesegol, roedd Diana yn gallu cyflwyno canfyddiadau meintiol a gyd-awdurwyd yng Nghynhadledd Ryngwladol Nurse Education Today and Nurse Education in Practice (NET/NEP 2024), yn Singapore, a oedd yn cyd-daro â'i thaith i Japan. Mae'r data ansoddol a gasglwyd o'r astudiaeth dulliau cymysg yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.



Roedd darlith wadd gyntaf Diana yn tynnu ar ei chysylltiad â chenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd â Phrifysgol Caerdydd. Mae'r gwaith hwn yn rhoi lle blaenllaw i iechyd, cyfoeth a llesiant cymunedau. Ysgogodd sgwrs Diana y gynulleidfa i feddwl yn fwy cynhwysol am sut maent yn addysgu yng nghyd-destun Japan ac i roi mwy o ystyriaeth i newid demograffeg myfyrwyr a phoblogaeth. Drwy dynnu sylw at risgiau a phwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gymwys i asesu clefydau/achoseg amrywiol mewn lliwiau croen gwahanol, heriodd y gynulleidfa i ddechrau ffordd newydd o weithio.

Ar ôl dychwelyd i'r DU, roedd Diana'n hynod falch o ennill gwobr am ei gwaith ym maes Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan Brifysgol Caerdydd.

# Ymweliad cyfnewid Marie Brousseau-Navarro â'r Ffindir



**Ddechrau mis Hydref 2024, cymerodd Marie Brousseau-Navarro (Dirprwy Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Iechyd yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) a Sumina Azam (Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru) ran mewn ymweliad cyfnewid lefel uchel 3 diwrnod â Helsinki (Y Ffindir).**

Pwrpas yr ymweliad oedd i'r Ffindir ddysgu gan Gymru am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dysgu o'r gwaith yng Nghymru ar fodel economi llesiant i lywio eu myfyrdodau wrth iddynt fynd ati i ddyfnhau eu fframwaith economi llesiant eu hunain.

Cyfarfu Sumina a Marie â swyddogion o THL (sy'n debyg i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y Ffindir) i siarad am eu gwaith a'u hymagweddau at fwyd, data iechyd y cyhoedd, dysgu o'r uniad diweddar o wasanaethau cymdeithasol ac iechyd lleol yn y Ffindir, sut all y dull Economi Llesiant hybu iechyd a llesiant ac ariannu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Gwnaethant gymryd rhan mewn gweithdai a drefnwyd gan THL.

Gwnaethant hefyd gyfarfod â chynrychiolwyr y Llywodraeth, yn cynnwys Veli-Mikko Niemi, Ysgrifennydd Cyffredinol y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd ac Eeva Furman, Prif Arbenigwr, Swyddfa'r Prif Weinidog, Adran Strategaeth y Llywodraeth, Uned Polisi'r Llywodraeth a oedd am wybod mwy am ein gwaith yng Nghymru.

Cafodd Marie y fraint o gwrdd â Pekka Puska, Cyn-gyfarwyddwr THL a sylfaenydd y Prosiect Gogledd Karelia byd-enwog.

Cytunodd Marie a Sumina i barhau i gydweithio a chael trafodaethau pellach gyda'r Ffindir ynghylch rhagwelediad, dysgu mwy am ddiwygiadau gofal iechyd ac uno gwasanaethau ac economeg iechyd.

# Digwyddiadau yn ystod Hydref-Rhagfyr 2024

**17eg Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd**
Dydd Iau 14 Tachwedd 2024 | Lisbon, Portiwgal



Roedd yr Athro Liz Green, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn weithgar iawn yng Nghynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd yn Lisbon.

Rhoddodd Liz ddau gyflwyniad: – un ar 'Gipio effaith newid hinsawdd ar iechyd a llesiant: asesiad o'r effaith ar iechyd (HIA) yng Nghymru' a'r llall mewn gweithdy bord gron gyda'r teitl 'Argyfwng hinsawdd: gweithredu cyfreithiol brys a meithrin gallu i ddiogelu a hybu iechyd y cyhoedd'.

Cyflwynodd Liz ddau boster hefyd a chyd-gadeirio'r cyfarfod ynghylch asesiadau HIA.

---

**Climate Cymru**
**Rôl Cyfiawnder Hinsawdd mewn addasu i'n Hinsawdd sy'n Newid**
Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024 | Ar-lein

Cynhaliodd Climate Cymru ddigwyddiad panel ar-lein yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru, gyda phanelwyr o Balestina, Nigeria a Tuvalu.

## GŴYL SYNIADAU
## Economi Llesiant Cymru 2024

Dydd Llun 18 Tachwedd

Trefnodd 4theRegion, WE Cymru, Oxfam Cymru, Cwmpas, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gynhadledd gyntaf Economi Llesiant Cymru ym mis Tachwedd 2024. Nod y digwyddiad hwn oedd newid y ffordd yr ydym yn meddwl am ein heconomi, ei phwrpas, a'i phosibiliadau.
ynnodd sylw hefyd at y camau ymarferol sy'n cael eu cymryd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i drawsnewid economi Cymru i fod yn economi llesiant.

## Darlith Flynyddol Hub Cymru Africa/Global Health Partnerships Cymru
## Heintiau sy'n gallu Gwrthsefyll Gwrthfiotigau: Her Iechyd Byd-eang

Dydd Iau 12 Rhagfyr | 2024

Mae heintiau sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfiotigau yn her iechyd fyd-eang sy'n effeithio ar bawb, gan gynnwys Cymru, y DU ac Affrica. Roedd y ddarlith hon yn trafod yr hyn y gellir ei wneud i leihau'r risgiau.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru'
## Fforwm Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2024 | Ar-lein

Rhannodd cydweithwyr ledled Cymru eu dysgu o gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymchwil iechyd rhyngwladol, a thrafodwyd cyfleoedd ar gyfer y dyfodol i ymgysylltu â gwaith a rhwydweithiau partneriaethau rhyngwladol.

Os na chawsoch y cyfle i fynd i'r fforwm, mae recordiad ar gael **yma**.

# Digwyddiadau a Chynadleddau i Ddod

**Hub Cymru Affrica**
**Hanfodion Diogelu**

Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 10:00am - 1:00pm | Ar-lein

Bydd yr hyfforddiant hwn yn tywys cyfranogwyr trwy'r arferion a'r gofynion Diogelu hanfodol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio mewn undod byd-eang â phartneriaid yn Affrica.

Cliciwch **yma** i gofrestru.

---

**Cynhadledd Iechyd Byd-eang**
**Creadigrwydd trwy Argyfwng: Gwersi o Iechyd Meddwl Byd-eang**

Dydd Iau, Ebrill 10, 2025 | 8.30am - 1.30pm PDT

Cynhadledd rithwir ac wyneb yn wyneb yn Chan Centre for Family Health Education. Bydd y digwyddiad hwn yn archwilio effaith gynyddol digwyddiadau byd-eang fel gwrthdaro, newid hinsawdd, a COVID-19 ar wahaniaethau iechyd meddwl ledled y byd.

Cliciwch **yma** i gofrestru.

---

**18fed Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd 2025**
**Buddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant cynaliadwy**

Prif gynhadledd 12 - 14 Tachwedd 2025
Cyn-gynadleddau 11 Tachwedd 2025
Helsinki, y Ffindir

1 Chwefror 2025 Cyfnod cyflwyno crynodebau **yn agor**
1 Ebrill 2025 Cofrestru yn agor

## Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

**Laura.holt@wales.nhs.uk**

**Joanne.Harrington2@wales.nhs.uk**